Basic Skills newsletters Edition 3:Basic Skills newsletter Edition 2 Welsh 31/10/08 14:15 Page 1

Words Talk-Numbers Count
Geiriau'n Galw-Rhifau'n Cyfri

Sgiliau Sylfaenol Basic Skills Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Hydref 2008

Dros £7.5m at wella sgiliau sylfaenol i flynyddoedd cynnar, ysgolion ac oedolion

Cafodd pecyn grantiau o dros £7.5m ar gyfer blynyddoedd cynnar ac ysgolion yng Nghymru i wella lefelau sgiliau sylfaenol ei gyhoeddi ar 4 Gorffennaf gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, John Griffiths. Fel rhan o 'Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol Geiriau'n Galw – Rhifau'n Cyfri' Llywodraeth Cynulliad Cymru, bydd y grantiau'n darparu cyllid ychwanegol i ysgolion fel eu bod yn fwy abl i adnabod a chefnogi'r plant sy'n llithro'n ôl yn eu dysgu.

Bydd y mwyaf o'r grantiau hyn, y rhaglen Grantiau Ymyrraeth Strategol, yn darparu cyfanswm o £2.57m y flwyddyn dros y ddwy flynedd nesaf i ddarparu cymorth dal i fyny i blant sy'n cael anawsterau wrth ddarllen.

Mae'r fenter dal i fyny eisoes wedi profi i fod yn llwyddiant mawr ledled Cymru gyda phlant ac arnynt angen cymorth dysgu ychwanegol yn gwneud enillion cyfartalog o 18.9 mis o fewn blwyddyn academaidd. Bydd £175,000 pellach ar gael i annog ysgolion i ddatblygu cymorth i ddilyn y cynllun dal i fyny.

Llun uchod:
Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau John Griffiths gyda disgyblion Ysgol Gynradd Parc Jenner Y Bari.

Dros £7.5m at wella sgiliau sylfaenol i flynyddoedd cynnar ac ysgolion (parhad)

Bydd pum rhaglen bwysig arall a ariennir â grant yn parhau i dderbyn cymorth fel rhan o'r Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru:

- Iaith a Chwarae, a anelir at wella datblygiad sgiliau iaith a rhifau plant yn y blynyddoedd cynnar – £1.35m.
- Rhaglenni Teuluol, a dargedir at rieni a phlant er mwyn torri'r cylch rhyngenedlaethol o sgiliau sylfaenol gwael – £1.67m.
- Grantiau Hyfforddi, i wella sgiliau athrawon mewn ysgolion a'r sector oedolion fel eu bod yn fwy abl i gefnogi sgiliau sylfaenol – £1.2m.
- Y Grantiau Marc Safon, i annog pob ysgol, coleg a darparwyr eraill i oedolion i ddatblygu fframwaith strategol ar gyfer adnabod a chefnogi dysgwyr sydd â sgiliau sylfaenol gwael – £626,000.

Fe ymwelodd y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau ag Ysgol Gynradd Parc Jenner yn y Barri i weld â'i lygaid ei hun y mentrau sydd ar waith yn yr ysgol i wella lefelau sgiliau sylfaenol. Meddai John Griffiths: "Mae'n Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i bob oed yn gosod targedau uchelgeisiol i wella lefelau sgiliau sylfaenol ledled Cymru – mae'r buddsoddiad sylweddol hwn yn rhoi neges glir am y pwysigrwydd a roddwn i wireddu'n hamcanion yn y maes pwysig hwn.

"Mae arnom eisiau gweld gwlad lle mae gan bawb y cyfle i gyflawni eu potensial. Ym mhob agwedd o'n gwaith, rydym yn ceisio sicrhau bod plant ac oedolion sydd wedi llithro trwy'r rhwyd ac angen cyfleoedd pellach i wella eu sgiliau sylfaenol yn cael yr help y mae arnynt ei angen.

"Mae'r pecyn grantiau hwn sy'n targedu'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion yn golygu ein bod ni'n gallu mynd i'r afael â'r broblem yn ei gwraidd, gan sicrhau bod plant yn cael y cychwyn gorau posibl mewn bywyd ac yn gallu mynd ymlaen i chwarae rhan lawn a gweithgar mewn cymdeithas."

Mae'r grantiau i flynyddoedd cynnar ac ysgolion yn rhan o becyn ehangach o grantiau a chymorth ariannol fel rhan o'r Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i bob oedran. Mae'r mentrau eraill yn cynnwys cymorth i ddysgwyr sy'n oedolion i wella'u sgiliau sylfaenol a'u llythrennedd yn eu hamser eu hunain neu trwy 'Adduned Cyflogwr' yn y gweithle yn ogystal â menter llythrennedd ariannol i bobl ifanc a rhaglenni cymorth eraill tebyg.

Prosiect Darllenydd Preswyl yr Academi Gymreig yn mynd ag ysgrifennu creadigol i garchardai yn Ne-orllewin Cymru

Yr Academi yw'r Asiantaeth Genedlaethol er Hyrwyddo Llenyddiaeth a Chymdeithas Llenorion Cymru, ac mae ei phrosiect Darllenydd Preswyl wedi bod yn mynd o gwmpas carchardai De Cymru i gyflwyno ysgrifennu creadigol.

Mae'r prosiect, a gafodd ei ariannu'n wreiddiol gan Sefydliad Paul Hamlyn, â chyllid pellach i barhau'r prosiect gan Sgiliau Sylfaenol Cymru, yw targedu darllenwyr gydag anghenion sgiliau sylfaenol a chynyddu eu diddordeb a'u hymwneud ag ysgrifennu creadigol a gweithgareddau ysgrifennu.

Meddai Prif Weithredwr yr Academi, Peter Finch: 'O fewn y pum carchar yng Nghymru, mae'r Penaethiaid Dysgu a Sgiliau wedi sylwi ar gynnydd mewn hyder a hunan-barch ymysg y carcharorion. Mae'r sesiynau creadigol wedi rhoi iddynt y cyfle i fynegi eu hunain, yn ogystal â gwella'u galluoedd ysgrifennu creadigol a llythrennedd.'

Am wybodaeth bellach cysylltwch â Phrif Weithredwr yr Academi, Peter Finch: 029 2047 2266 neu post@academi.org.

"Mae llawer o garcharorion yn dweud iddynt gael eu hysbrydoli i barhau i ysgrifennu, yn y carchar ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Gobeithiwn y bydd y prosiect hwn yn eu hysbrydoli nhw i ddarllen am oes, i fwynhau llenyddiaeth ac i ddod yn ysgrifenwyr eu hunain."

Llythrennedd Ariannol a RhCA Cymru

Mae prosiect Llythrennedd Ariannol Sgiliau Sylfaenol Cymru wedi cynhyrchu cyfres o unedau Llythrennedd Ariannol wedi eu hachredu â RhCA Cymru.

Mae'r gyfres o 25 o unedau credyd unigol yn targedu sgiliau sylfaenol llythrennedd a rhifedd trwy gyd-destun llythrennedd ariannol. Mae 5 uned ar gyfer pob lefel; mae un uned yn canolbwyntio'n bennaf ar lythrennedd; un uned yn canolbwyntio'n bennaf ar rifedd, a'r tri arall gyda chyfuniadau amrywiol o lythrennedd a rhifedd.

Mae'r unedau ar gael yn ddwyieithog trwy RhCA Cymru.
www.ocnwales.org.uk

Prosiect 'Mae dy Gymraeg di'n Grêt' Twf

Datblygu sgiliau iaith Gymraeg rhieni er mwyn eu hannog i fagu plant dwyieithog

Mae Twf yn hyrwyddo'r manteision pellgyrhaeddol i deuluoedd o fagu eu plant yn ddwyieithog, o'u genedigaeth, yn y cartref. Mae'r manteision hyn yn amrywio o rwyddineb dysgu'n ifanc, i fanteision economaidd dewis ehangach o swyddi'n ddiweddarach mewn bywyd.

Yn ail gam y prosiect peilot, mae Sgiliau Sylfaenol Cymru wedi ymuno â Twf ac wedi darparu llyfrau Cymraeg i gyfranogwyr eu defnyddio.

Meddai Linda Evans, Cydgysylltydd Twf yn Ne-orllewin Cymru: "Roedd llyfrau Sgiliau Sylfaenol Cymru'n wych oherwydd roeddent yn hawdd ac yn bleserus i'w darllen – byddwn i'n bersonol yn gallu eu darllen nhw mewn noson – roedden nhw'r union beth ar gyfer y grŵp."

Am wybodaeth bellach ffoniwch Twf ar 01745 585120 neu cysylltwch â Linda Evans, Cydgysylltydd Twf yn Ne-orllewin Cymru ar lindatwf@btinternet.com

Iaith a Chwarae yn y Gilfach Goch

Fe wnaeth y tîm Iaith a Chwarae yn Rhondda Cynon Taf ddarparu gwahoddiadau i'r teuluoedd ar lwyth achosion Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg.

Mae amrywiaeth o wasanaethau wedi cael eu paratoi ar gyfer y grŵp o saith o rieni a gofalwyr a'u plant, gan gynnwys Anwesu Babanod, Iaith a Chwarae, Rhif a Chwarae a Bwydo ar y Fron.

Gwneud marciau a throchi dwylo yw Sesiwn chwech o'r elfen Iaith a Chwarae. Mae'r deunyddiau a ddefnyddir yn cynnwys cwstard, powdwr siocled, sbageti lliw a cheirch sych, ac fel y gellwch weld, roedd y plant a'u rhieni wrth eu boddau yn arbrofi ac yn gwneud marciau â hwy.

Cysylltwch â ni

Am fwy o wybodaeth ewch i www.sgiliau-sylfaenol-cymru.org